Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygu monitro blynyddol ar:

# Ganolfan Datblygiad Plant Woodlands

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Mae'n ofynnol i ymweliadau monitro blynyddol Estyn ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru adrodd ar b'un a yw rheoliadau safonau cofrestru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni, a lle nad ydynt yn cael eu bodloni, beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau ar gyfer yr ymweliad monitro hwn i'w gweld yn y dogfennau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llawlyfr Gwybodaeth a Chofrestru Ysgolion Annibynnol*, Ebrill 2004; a
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 37/94: *Ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig*:
  - paragraffau 1-8: caniatáu/dileu cymeradwyaeth;
  - paragraff 42: newidiadau i gymeriad, rheolaeth neu ofalaeth ar yr ysgol; a
  - 37/94 paragraff 43: gwahaniaethau sylweddol o'r nifer a gymeradwywyd.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/06/2014**

## Cyd-destun

Mae Canolfan Datblygiad Plant Woodlands yn darparu gofal ac addysg breswyl a therapi hynod arbenigol ar gyfer bechgyn rhwng 11 ac 18 oed sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sylweddol a chymhleth. Mae naw disgybl ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd, ac mae pob un ohonynt yn byw mewn cartrefi plant sy'n cael eu gweithredu gan sefydliad Woodlands. Mae gan chwech o'r disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r arolygiad monitro hwn yn adrodd ar gynnydd yr ysgol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn adroddiad arolygu A163, Gorffennaf 2013. Yn dilyn yr arolygiad hwnnw, cryfhaodd y perchnogion arweinyddiaeth yr ysgol. Fe wnaethant benodi pennaeth newydd a sefydlu corff llywodraethol i roi cymorth a her i'r ysgol. Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd yn Ionawr 2014.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau'r ysgol:**

- mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ar gyfer yr ysgol. Mae arweinwyr wedi ymrwymo i wella'r ysgol yn barhaus ac maent wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â rhan fwyaf o argymhellion adroddiad A163, Gorffennaf 2013. Maent wedi rhoi cynllun gwella ysgol (CGY) cynhwysfawr ar waith;
- caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i fynegi eu safbwyntiau. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd misol am eu cynnydd;
- mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi. Maent yn rhyngweithio'n dda â staff ac yn caffael gwybodaeth a medrau newydd;
- gall disgyblion fanteisio'n briodol ar gymwysterau sy'n cynnwys unedau AQA, cyrsiau Lefel Mynediad a TGAU. Maent yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd dysgu ychwanegol, gan gynnwys addysg yn yr awyr agored a Chynllun Gwobr Dug Caeredin;
- mae athrawon yn sicrhau bod gwersi'n cael eu cynllunio'n dda, eu bod yn cynnwys amcanion dysgu clir ac yn mynd i'r afael â thargedau o gynlluniau addysg unigol (CAUau). Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda;
- mae gan staff berthnasoedd gweithio da gyda disgyblion ac maent yn eu cymell yn dda trwy eu canmol a'u hannog;
- ceir cysylltiadau da rhwng staff gofal, therapi ac addysg sydd o fudd i ddisgyblion; ac
- fe gaiff gwasanaethau cymorth therapiwtig arbenigol eu cydlynu'n dda a gwnânt gyfraniad pwysig at les a datblygiad personol pob disgybl.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- mae'r ysgol wedi rhoi polisi cwricwlwm ar waith sy'n amlinellu nodau ac amcanion y cwricwlwm ac yn rhoi arweiniad priodol i athrawon. Er bod yr ysgol wedi dechrau adolygu'r hyn sy'n cael ei addysgu ym mhob pwnc ym mhob cyfnod allweddol, nid oes cynlluniau gwaith cynhwysfawr ar waith ar gyfer pob maes pwnc;
- mae gan bob disgybl CAUau sydd wedi'u seilio ar asesiad cychwynnol defnyddiol. Fodd bynnag, er bod CAUau yn cynnwys targedau ar gyfer ymddygiad a gwaith academaidd, nid yw llawer o'r rhain yn ymwneud yn ddigon agos ag amcanion sydd wedi'u nodi yn natganiad o anghenion addysgol arbennig y disgybl;
- mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth roi strategaethau ar waith i wella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion a rhoi mwy o hyder iddynt yn eu galluoedd. Er bod y strategaethau hyn wedi cael effaith, mae llawysgrifen disgyblion yn anaeddfed ac nid yw pwyslais yr ysgol ar ddatblygu medrau ffonig disgyblion wedi'i deilwra'n ddigon da i fodloni eu hanghenion dysgu unigol; ac
- er bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, mae angen rhoi mwy o sylw i ychydig iawn o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - rhoi mwy o fanylion yn y polisi gwrth-fwlio;
  - sicrhau bod cyswllt clir rhwng y cofnod o achosion difrifol a'r cofnod o gosbau a ddefnyddir;
  - cofnodi presenoldeb disgyblion yn fwy gofalus ac yn unol â'r codau cydnabyddedig;
  - sicrhau bod yr ysgol yn cynnwys cofrestr derbyniadau sy'n cynnwys yr holl wybodaeth statudol; a
  - sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gwybod y gallent ofyn am y wybodaeth a restrir yn Safon 6.

## Argymhellion

**A1** Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

**A2** Datblygu cynlluniau gwaith manwl ar gyfer pob maes cwricwlwm

**A3** Gwneud yn siŵr bod y ddarpariaeth a amlinellir yn natganiadau o anghenion addysgol arbennig disgyblion yn cael ei chynnwys wrth gynllunio ar gyfer pob disgybl

**A4** Parhau i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion trwy ganolbwyntio ar wella eu llawysgrifen a sicrhau bod strategaethau addysgu i wella medrau darllen a sillafu disgyblion yn briodol i fodloni eu hanghenion unigol amrywiol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a amlinellir yn adroddiad arolygu A163, Gorffennaf 2013. Mae arweinwyr wedi blaenoriaethu'r safonau a'r rheoliadau sy'n gofyn am ymateb uniongyrchol ac wedi sefydlu amserlen addas i fynd i'r afael â'r rhai sy'n weddill.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer recriwtio staff a diogelu disgyblion yn gadarn ac yn cydymffurfio'n llawn ag arweiniad Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth wella'i threfniadau i sicrhau bod disgyblion yn cael eu diogelu'n effeithiol. Mae'r polisi amddiffyn plant diwygiedig yn bodloni gofynion ac mae wedi cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan lywodraethwyr yr ysgol. Mae'r ysgol wedi dynodi llywodraethwr cyswllt ar gyfer diogelu. Ym Medi 2013, penodwyd athro dynodedig newydd sydd â chyfrifoldeb am amddiffyn plant. Cafodd hyfforddiant priodol lefel 3 yn Rhagfyr 2013.

Cafodd pob un o'r staff hyfforddiant sylfaenol mewn amddiffyn plant ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ac mae hyfforddiant gloywi wedi'i drefnu. Rhaid i staff lofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen polisi'r ysgol. Ym Medi 2013, ysgrifennodd yr ysgol i roi gwybod i rieni am y polisi newydd a dweud wrthynt y gallent ofyn am gopïau.

Mae'r ysgol wedi gwella'i systemau gweinyddol i sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel.

Cynhelir gwiriadau priodol ar bob un o'r staff a'r gwirfoddolwyr. Mae'r ysgol yn sefydlu un cofnod canolog o'r gwiriadau hyn.

Fodd bynnag, nid oes digon o fanylion ym mholisi gwrth-fwlio'r ysgol ynghylch gweithdrefnau'r ysgol wrth ddelio â bwlio, y modd y caiff materion eu cofnodi a'r hyfforddiant a roddir i staff.

Mae polisi'r ysgol ynghylch cosbau a roddir am ymddygiad gwael a'r ffordd y caiff y rhain eu cofnodi yn aneglur.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd y cwricwlwm trwy ddatblygu cynlluniau gwaith addas a chysondeb mewn cynllunio ym mhob cyfnod**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi adolygu polisi'r cwricwlwm ac mae wedi rhoi systemau cadarn ar waith i fonitro'i weithredu. Mae athrawon yn cynllunio gwersi'n dda, ac yn gosod amcanion dysgu clir a thasgau sydd wedi'u gwahaniaethu i fodloni anghenion dysgwyr unigol. Mae athrawon wedi dechrau arfarnu'r hyn sy'n cael ei addysgu ym mhob maes pwnc. Fodd bynnag, mae cynlluniau gwaith ar gael mewn lleiafrif o bynciau yn unig ac nid oes ganddynt fformat cyson. Mae'r CGY yn nodi graddfeydd amser priodol ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod arweinwyr yn defnyddio dull mwy cadarn ar gyfer cynllunio strategol ac yn monitro gwaith yr ysgol yn fwy effeithiol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Yn dilyn yr arolygiad A163 yng Ngorffennaf 2013, cyflogodd y perchennog ymgynghorydd addysgol i gynghori'r ysgol ar ddatblygu cynllun gweithredu priodol i symud yr ysgol ymlaen.

Mae'r cynllun gweithredu yn ddogfen fanwl sydd:

- yn diffinio'n glir y camau a gynllunnir;
- yn nodi'r unigolyn/bobl sy'n gyfrifol am weithredu;
- yn sefydlu graddfeydd amser penodol ar gyfer cwblhau pob cam gweithredu a cherrig milltir addas a fydd yn galluogi staff i farnu cynnydd tuag at gwblhau pob cam gweithredu;
- yn diffinio'r meini prawf ar gyfer barnu llwyddiant neu fethiant y gweithredu wrth fodloni ei amcanion; ac
- yn nodi'r adnoddau ariannol a'r amser a fydd yn cael eu neilltuo ar gyfer pob cam gweithredu.

Gweithredodd yr ysgol yn brydlon i fynd i'r afael â'r materion diogelu a nodwyd yn sgil yr arolygiad.

**Argymhelliad 5: Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn gynhwysfawr, yn systematig a chyson ar draws yr ysgol a'u bod yn nodi blaenoriaethau gwella priodol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae arweinwyr wedi rhoi proses hunanarfarnu ar waith sydd â ffocws penodol ar wella addysgu. Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar yn cynnal arsylwadau gwersi misol, mae'n craffu ar ddogfennau cynllunio athrawon ac yn craffu ar waith disgyblion bob hanner tymor. Caiff meysydd i'w gwella eu cofnodi a'u rhannu gydag athrawon.

I gynnwys athrawon yn fwy effeithiol yn y broses sicrhau ansawdd, cyflwynwyd system arsylwi cymheiriaid. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y prosesau hyn ar ddeilliannau disgyblion.

Mae arweinwyr yn annog disgyblion i rannu eu safbwyntiau a chodi materion trwy lenwi holiaduron a chyfarfodydd o'r cyngor ysgol a ffurfiwyd yn ddiweddar. Mae staff hefyd yn cyfrannu at y broses hunanarfarnu trwy fynychu cyfarfodydd sydd â ffocws clir ar agweddau ar wella'r ysgol yn rheolaidd a thrwy lenwi holiaduron.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn cyflawni gofynion datganiadau disgyblion [1(2e)]; a
- darparu addysg sy'n galluogi pob disgybl mewn dosbarth i wneud cynnydd, gan gynnwys disgyblion â datganiadau [1(5)].

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- baratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig i atal bwlio sy'n ystyried cylchlythyr 23/03 y Cynulliad Cenedlaethol "Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio" [(3(2a)];
- cadw cofnodion ysgrifenedig o'r cosbau a osodir ar ddisgyblion am droseddau disgyblu difrifol [3(8)]; a
- chynnal cofrestr derbyniadau yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995 [3(9)].

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol drefnu bod y wybodaeth ganlynol ar gael, neu'i gwneud yn glir y gallai rhieni/gofalwyr ofyn amdani:

- manylion am y cwricwlwm a gynigir gan yr ysgol [6(2g)];
- manylion am bolisïau yn ymwneud â bwlio, amddiffyn plant, hyrwyddo ymddygiad da a chosbau os bydd disgyblion yn camymddwyn [6(2h)]; a

- manylion am berfformiad academaidd yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, gan gynnwys canlyniadau unrhyw arholiadau cyhoeddus [6(2i)].

**Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Canolfan Datblygiad Plant Woodlands |
| **Rhif yr ysgol** | 665/6042 |
| **Diben yr ymweliad** | • arolygiad monitro ôl-A163. |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 3 Mawrth 2014 |
| **Perchennog** | Woodlands Ltd |
| **Staff** | 4 o athrawon amser llawn, gan gynnwys y pennaeth a 4 o athrawon rhan-amser<br>2 diwtor amser llawn<br>1 cynorthwyydd addysgu rhan-amser / goruchwyliwr llanw |
| **Nifer y disgyblion** | 9 |
| **Darpariaeth** | Addysg a therapi yn ystod y tymor am 43 wythnos i fechgyn 11 – 18 oed sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cymhleth. |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 1 i 4 Gorffennaf 2013 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Mehefin 2011 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Station Cottage 14 Ionawr 2013<br>Hen Dŷ'r Ysgol 16 Ionawr 2013<br>Tŷ Coed 4 Tachwedd 2013 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Anthony Mulcahy |
| **Arolygydd Tím** | Rosemary Lait |